

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF**

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

Mr C. B. Jones
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Ffôn: (01443) 424081 C Hendy

Bydd cyfarfod o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal yn **Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, brynhawn Iau, 2 Tachwedd 2017 am 5.00pm.**

ER GWYBODAETH AC FEL RHEOL GYFFREDINOL, BYDD GOFYN I UNRHYW AELODAU O'R CYHOEDD SY'N DYMUNO SIARAD AR UNRHYW EITEM YN YR AGENDA YMA, Y MAE GYDA NHW FUDDIANT YNDDI, GYFLWYNO CAIS FFURFIOL I'R UWCHADRAN MATERION RHEOLI DATBLYGU, TŶ SARDIS, PONTYPRIDD O LEIAF DAU DDIWRNOD GWAITH CYN DYDDIAD Y CYFARFOD. RHAID I UNRHYW UN SY'N DYMUNO CYFRANNU YN Y CYFARFOD DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG GYSYLLTU Â'R GWASANAETHAU LLYWODRAETHOL
AR 01443 424102

ER GWYBODAETH I'R RHEINY A FYDD YN Y CYFARFOD, MAE'N BOSIBL Y CAIFF MATERION EU TRAFOD MEWN TREFN WAHANOL I'R HYN SYDD WEDI'I NODI YN YR AGENDA ER MWYN GALLUOGI UNIGOLION SYDD AM GYFRANNU YN Y CYFARFOD I WNEUD HYNNY. CAIFF TREFN YR AGENDA EI HADDASU ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR ORAU.

AGENDA

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau o'r Pwyllgor yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm y mae eu buddiant yn ymwneud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, pan fyddan nhw'n trafod y materion rheoli datblygu ger eu bron, roi ystyriaeth i'r Cynllun Datblygu a, cyn belled â'u bod yn berthnasol, i geisiadau ac i ystyriaethau eraill. Pan fyddan nhw'n gwneud penderfyniadau, rhaid i Aelodau sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu'n groes i'r Confensiwn ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

3.

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

4. COFNODION

Cadarnhau bod y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 5 Hydref yn gywir;

Tudalennau

1 - 4

ADRODDIADAU CYFARWYDDWR GWASANAETH, MATERION CYNLLUNIO

5.

CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO

- | | | |
|-------------|---|----------------|
| (1). | Cais Rhif 16/1151 - Dymchwel adeiladau meithrin heb eu defnyddio er mwyn estyn maes parcio siop i gynnwys 34 o leoedd parcio ychwanegol (cyfanswm 114) (derbyniwyd cynllun trefn y safle wedi'i newid ar 26/09/17), Lidl Foodstore, Rhondda Road, Pontypridd. | 7 - 15 |
| (2). | Cais Rhif - 17/0102 - Adeiladu 3 thŷ 3 ystafell wely (derbyniwyd cynllun trefn safle wedi'i newid gyda ffin lai 12/7/17), tir ym Mryngolau, Tonyrefail, y Porth. | 15 - 24 |
| (3). | Cais Rhif - 17/0753 - Tynnu adeilad presennol a chodi wal gynnal er mwyn estyn Canolfan Ailgylchu Dinas gyfagos, Ffald Cŵn Dinas, Cymmer Road, Dinas, Y Porth. | 24 - 32 |
| (4). | Cais Rhif 17/0822 - Newid defnydd o Siop Asiant Tai i Gaffi A3, Lloyd Taylor Simpson, 66 Park Street, Trefforest, Pontypridd. | 33 - 39 |
| 5. | Cais Rhif 17/0923 - Newidiadau ac Estyniad arfaethedig i Ganolfan Gofal Oriau Dydd bresennol i fod yn Ganolfan/Hwb i'r gymuned. Gwaith i gynnwys gorchudd/cladin i'r wynebau allanol, newidiadau i'r maes parcio a thrin ffin. Newidiadau mewnol i gynnwys sefydlu Meddygfa, Gofal Oriau Dydd, ac estyn strwythur i greu gofod/lle ychwanegol at ddefnydd Swyddfeydd D1 | 39 - 49 |

(derbyniwyd adroddiad cloddio 21/09/17), Canolfan Oriau Dydd y Santes Fair, Seymour Street, Aberdâr.

- (6) Cais Rhif 17/0990 - Newidiadau ac Estyniad arfaethedig i Ganolfan Gofal Oriau Dydd bresennol i fod yn Ganolfan/Hwb i'r gymuned. Gwaith i gynnwys gorchudd/cladin yn rhannol i'r wynebau allanol, newidiadau i'r maes parcio a thrin ffin. Newidiadau mewnol i gynnwys sefydlu Meddygfa, Gofal Oriau Dydd, ac estyn strwythur i greu gofod/lle ychwanegol at ddefnydd D1. Trosi cyn-Fflat Gofalwr llawr cyntaf i ofod/lle at Ddefnydd Swyddfa D1 Atodol. (Cynllun B) (Derbyniwyd Adroddiad Cloddio Glo 21/09/17), Canolfan Oriau Dydd y Santes Fair, Seymour Street, Aberdâr. **49 - 59**

6. CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU GWRTHOD

- (1) Rhif Cais 17/0163 - Tŷ Annedd, tir cyfagos â Threlawney, Rhyd-Y-Nant, Pont-y-clun. **61 – 69**
- (2) Rhif Cais 17/0538 - Cais amlinellol am ddatblygiad preswyl arfaethedig o 9 annedd, Hen Chwarel Bodwenarth, Bedw Road, Cilfynydd, Pontypridd. **70 – 77**
- (3) Rhif Cais 17/0785 - Annedd dau-lawr ar wahân arfaethedig gan gynnwys garej ar wahân a man troi. (Ail-gyflwyno) (Derbyniwyd Cynllun Trefn Safle wedi'i newid a gwybodaeth atodol 16/08/17), tu ôl i 132 Bute Street, Treherbert, Treorci. **77 -88**

7. ADRODDIAD ER GWYBODAETH

Rhoi gwybod i'r Aelodau am y canlynol, am y cyfnod /2017 a /2017. **89 - 95**
Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodaeth Apeliadau a Dderbyniwyd.
Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd.
Penderfyniadau Dirprwyedig –Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau.
Trosolwg o Achosion Gorfodi
Penderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig.

MATERION BRYD

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai bryd yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cylchrediad:

Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu:
(Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol S. Rees a G. Caple)

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol J. Bonetto, A. Davies-Jones, D. Grehan , L.
Hooper G. Hughes, P. Jarman, D. Williams, J. Williams ac S. Powell

26 Hydref 2017

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Y Pafiliynau, Cwm Clydach ddydd Iau, 5 Hydref 2017 am 5.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol G Caple – yn y Gadair

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol

J. Bonetto	L. Hooper	S. Powell
A. Davies- Jones	G. Hughes	D. H. Williams
D. Grehan	P. Jarman	J. Williams

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr S. Gale – Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Materion Cynllunio
 Mr S. Humphreys - Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol - Cynllunio a'r Amgylchedd
 Mr D. J. Bailey – Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
 Mr S. Zeinali – Rheolwr Datblygu Priffyrdd a Mabwysiadu Priffyrdd

66. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol S. Rees ac L. Hooper.

67. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Penderfynwyd – yn unol â Chôd Ymddygiad Aelodau, nad oedd unrhyw fuddiannau personol wedi'u gwneud yn y cyfarfod mewn perthynas â'r agenda.

68. Y DDEDDF HAWLIAU DYNOL A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

PENDERFYNWYD – nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar

Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

69 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

PENDERFYNWYD - Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

70 NEWID TREFN YR AGENDA

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei ystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

71 COFNODION

PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu, a gynhaliwyd ar 7 Medi 2017, yn rhai cywir.

72 CAIS A ARGYMHELLIR AR GYFER EI GYMERADWYO YN YMWNEUD Â SIARADWYR CYHOEDDUS

(1) 17/0493 – Tyrbin gwynt unigol hyd at uchafswm o 126 metr i ben y llafn. Ynghyd â'r seilwaith cysylltiedig gan gynnwys pad craen, llwybr mynediad a chynhwysydd trydanol. (Daeth Datganiad Amgylcheddol gyda'r cais - dyddiad Ebrill 2017) Graig Fartha, Coed-elái, Tonyrefail.

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Ms J Folkard (Asiant). Cafodd hi bum munud i roi ei barn ar y cais uchod.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Datblygu amlinelliad o'r cais i'r Pwyllgor ac yn dilyn trafod y mater **PENDERFYNWYD** - i roi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio i gymeradwyo'r cais yn unol â'r argymhelliad ar yr amod bod Maes Awyr Caerdydd yn tynnu'i wrthwynebiad dros dro yn ôl cyn pen 6 mis o ddyddiad y penderfyniad hwn heb angen unrhyw newidiadau i'r datblygiadau arfaethedig ac yn amodol ar newidiad i Amod 9 i "Dim llwythi nwyddau anghyffredin i ddigwydd rhwng yr oriau 0700 - 0900 a 1600 - 1800 ddydd Llun i ddydd Gwener, oni bai bod hynny'n cael ei gytuno mewn ysgrifen gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol." Oni fydd Maes Awyr Caerdydd yn tynnu'r gwrthwynebiad yn ôl cyn pen 6 mis o ddyddiad y penderfyniad hwn neu os ydy tynnu'r gwrthwynebiad yn amodol ar newidiadau i'r datblygiad arfaethedig, bod y mater yn dod yn ôl i'r Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu ar gyfer trafodaeth bellach.

73 CEISIADAU SYDD WEDI'U HARGYMELL AR GYFER EU CYMERADWYO

Yn ei adroddiad, amlinellodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Materion Cynllunio, y manylion ar gyfer y ceisiadau y mae'n argymell eu cymeradwyo.

PENDERFYNWYD -

(1) Cymeradwyo Rhif Cais 17/0429- garej ddwbl ddomestig a gwaith cysylltiedig (Derbyniwyd Cynlluniau Diwygiedig ar 14/08/17), tir oddi ar Broadfield Close Pen-y-graig, Tonypandy yn unol ag argymhellion Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Cynllunio.

74 ADRODDIAD ER GWYBODAETH

PENDERFYNODD yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Materion Cynllunio mewn perthynas â Phenderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a dderbyniwyd, Ceisiadau wedi'u Cymeradwyo a'u Gwrthod gyda Rhesymau trwy'r drefn Penderfyniadau wedi'u Dirprwyo, Crynodeb o'r Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi trwy'r drefn Ddirprwyo ar gyfer cyfnod 11 Medi 2017 a 22 Medi 2017.

**G.Caple
CADEIRYDD**

Daeth y cyfarfod i ben am 5:15pm.